LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

45 MANIFFESTO MANIFESTO

LLGC NLW

Cylchlythyr yr Archif Wleidyddol Gymreig
The Welsh Political Archive Newsletter

1. Ychwanegiad at Bapurau'r Arglwydd Ogmore
Addition to the Lord Ogmore Papers
2. Archifau'r Ymgyrch Senedd i Gymru
Parliament for Wales Campaign Archives
3. Darlith y Barwn Morris o Aberafan
Baron Morris of Aberavon's Lecture
4. The Welsh Liberals – The History of the Liberal and Liberal Democrat Parties in Wales, gan/by Russell Deacon
5. Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf
The National Library of Wales and the First World War

www.llgc.org.uk

DERBYNIADAU
ACQUISITIONS

YCHWANEGIAD AT BAPURAU'R ARGLWYDD OGMORE
ADDITION TO THE LORD OGMORE PAPERS

Lord Ogmore Papers

Ym mis Mai 2014, roedd y Llyfrgell yn hynod falch o dderbyn sawl blwch yn cynnwys papurau'r Arglwydd Ogmore i ychwanegu at y casgliad sydd eisoes yn y Llyfrgell Genedlaethol. Cafodd David Rees Williams ei eni yn 1903 ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac ymgymhwysodd yn gyfreithiwr ac yn fargyfreithiwr. Treuliodd amser ym Malaya cyn dychwelyd i Gymru i sefydlu ei bractis cyfreithiol ei hun yng Nghaerdydd. Bu ar wasanaeth gweithredol drwy gydol yr Ail Ryfel Byd, gan godi i reng Lefftenant-Cyrnol yn y Magnelwyr Brenhinol ac fe'i penodwyd yn Brif Swyddog Cyfreithiol i Montgomery yn y llywodraeth filwrol ar ôl y rhyfel gan lywyddu mewn treialon ym Merlin. Yn Etholiad Cyffredinol 1945 cafodd ei ethol yn AS Llafur De Croydon a bu ganddo rôl allweddol wrth newid strwythur y llywodraeth yn Sarawak a Burma pan oedd yn Is-Ysgrifennydd Gwladol yn Swyddfa'r Trefedigaethau o 1947. Oherwydd ad-drefnu ar ffiniau etholiadol, gorfodwyd ef i ymladd Gorllewin Coventry yn 1950 a chollodd o drwch blewyn, ond cafodd ei ddyrchafu i Dŷ'r Arglwyddi fel y Barwn Ogmore yn fuan wedyn, gan wasanaethu yn y llywodraeth fel Is-Ysgrifennydd Seneddol Gwladol dros Gysylltiadau'r Gymanwlad ac fel Gweinidog dros Hedfan.

Parhaodd yn weithgar yn Nhŷ'r Arglwyddi ar ôl i'r Blaid Lafur golli etholiad 1951, ond ymunodd â'r Rhyddfrydwyr yn 1959. Unwaith eto rhoddwyd rolau pwysig iddo, a bu'n Llywydd y Blaid Ryddfrydol yn 1963-64, ac yn ddirprwy arweinydd y Rhyddfrydwyr yn Nhŷ'r Arglwyddi o 1965.

Cadwodd ei ddiddordeb brwd mewn Materion Cymreig trwy gydol ei fywyd. Bu ganddo ran amlwg ym mywyd y gymuned Gymreig yn Llundain, dysgodd Gymraeg yn oedolyn a siaradodd yn gryf o blaid Deddf yr Iaith Gymraeg 1967. Roedd hefyd yn cefnogi datganoli, ac yn 1968 cyflwynodd Fesur Llywodraeth Cymru i sefydlu Senedd etholedig i Gymru. Bu farw yn 1976.

Cafodd y papurau sydd newydd ddod i'r Llyfrgell eu rhoi gan ei ferch, Elizabeth Harris ac maent yn cynnwys:

- llawysgrif wedi'i theipio o hunangofiant anghyhoeddedig yr Arglwydd Ogmore
- papurau yn ymwneud â Burma a Sarawak
- llythyrau rhwng yr Arglwydd Ogmore a Clement Attlee ynghylch llywodraethu yn y trefedigaethau
- deunydd yn ymwneud â gwasanaeth milwrol yr Arglwydd Ogmore
- llawysgrifau o ddramâu a ysgrifennwyd gan yr Arglwydd Ogmore
- erthyglau ynghylch datganoli Cymru
- papurau yn ymwneud ag arwisgo Tywysog Cymru yn 1969
- areithiau, llythyrau personol a phapurau yn ymwneud â dyfarnu Agga Maha Thray Sithu i'r Arglwydd Ogmore, sef anrhydedd uchaf Undeb Burma.

In May 2014, the Library was delighted to receive several boxes of Lord Ogmore's papers to add to the collection already held at the National Library. David Rees Williams was born in 1903 in Bridgend and qualified as a solicitor and barrister and spent time in Malaya before returning to Wales to establish his own law practice in Cardiff. He was on active service during the Second World War, rising to the rank of Lieutenant Colonel in the Royal Artillery and was appointed as Montgomery's Chief Legal Officer in the post war military administration where he presided at trials in Berlin. In the 1945 General Election he was elected as the Labour MP for Croydon South and played a key role in changes to the structure of government in Sarawak and Burma, serving as Parliamentary Under-Secretary of State at the Colonial Office from 1947. Boundary changes forced him to contest Coventry West in 1950, which he narrowly lost but he was elevated to the House of Lords as Baron Ogmore shortly afterwards, serving in the government as Parliamentary Under-Secretary of State for Commonwealth Relations and Minister for Aviation.

He remained active in the Lords after Labour's defeat in the 1951 election, but defected to the Liberals in 1959. Once again he undertook senior roles, acting as Party President in 1963-64, and deputy leader of the Liberals in the House of Lords from 1965.

Throughout his life he retained a keen interest in Welsh Affairs. He played an active part in the life of the Welsh community in London and learnt Welsh as an adult, speaking strongly in support of the 1967 Welsh Language Act. He was also a supporter of devolution and in 1968 he introduced a Government of Wales Bill to establish an elected Parliament for Wales. He died in 1976.

The newly acquired papers were donated by Lord Ogmore's daughter, Elizabeth Harris and include;

- a typed manuscript of Lord Ogmore's unpublished autobiography,
- papers relating to Burma and Sarawak,
- letters between Lord Ogmore and Clement Attlee about governance in the colonies,
- material relating to Lord Ogmore's military service,
- manuscripts of plays written by Lord Ogmore,
- articles regarding Welsh devolution,
- papers relating to the investiture of the Prince of Wales in 1969,
- speeches, personal letters and papers relating to the award of Agga Maha Thray Sithu, the highest honour of the Union of Burma to Lord Ogmore.

DERBYNIADAU
ACQUISITIONS

ARCHIFAU'R YMGYRCH SENEDD I GYMRU
PARLIAMENT FOR WALES CAMPAIGN ARCHIVES

Cofnodion Ymgyrch Senedd i Gymru Parliament for Wales Campaign Records

Yn Nhachwedd a Rhagfyr 2013, derbyniodd y Llyfrgell 10 blwch o bapurau i ychwanegu at Archif yr Ymgyrch Senedd i Gymru. Roedd 13 blwch o ddeunydd archifol eisoes yn y casgliad, ac mae'r rhodd ychwanegol hon yn diweddaru'r archif hyd at ddiwedd ymgyrch y llynedd. Cafodd ei lansio yn 1988 dan yr enw Ymgyrch Senedd i Gymru/ *Campaign for a Welsh Assembly,* a newidiwyd yr enw Saesneg yn 1993 i *Parliament for Wales Campaign.* Roedd yr ymgyrch yn fudiad trawsbleidiol i sefydlu llywodraeth ddatganoledig i Gymru ac roedd wedi ennyn cefnogaeth cymdeithasau dinesig Cymru, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol, eglwysi, awdurdodau lleol, ac undebau llafur. Yn sgil sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999, bu'r ymgyrch yn galw am bwerau deddfu llawn, yn debyg i rai Cynulliad Gogledd Iwerddon a Senedd yr Alban. Yn dilyn refferendwm 2011 ar bwerau deddfu a'i hamcanion felly wedi'u cyflawni, daeth yr Ymgyrch yn swyddogol i ben. Mae'r deunydd newydd yn cynnwys dogfennau ariannol, cofnodion, agendâu, llythyrau, cyhoeddiadau, cylchlythyrau ac effemera o'r ymgyrch. Nid yw'r deunydd wedi cael ei gatalogio'n llawn eto.

Archifau'r Blaid Gydweithredol yng Nghymru

Yn ystod mis Mai 2014, roedd y Llyfrgell yn falch o dderbyn 10 blwch o ddeunydd y Blaid Gydweithredol yng Nghymru.

Mae gan y Blaid Gydweithredol bresenoldeb sylweddol yng ngwleidyddiaeth Cymru gan fod 9 o Aelodau'r Cynulliad a 3 Aelod Seneddol wedi'u hethol drwy bleidlais ar y cyd â'r Blaid Lafur, ond hyd yn hyn nid oedd gan y Llyfrgell unrhyw archifau o eiddo'r Blaid Gydweithredol. Rydym yn falch iawn bod y diffyg hwn bellach wedi'i gywiro a bod bwlch mawr yng ngwleidyddiaeth Cymru wedi cael ei lenwi.

Sefydlwyd y blaid yn 1917, o ganlyniad i'r driniaeth a gafodd Mentrau Cydweithredol yn ystod y Rhyfel Mawr, ac etholwyd ei Haelod Seneddol cyntaf yn Kettering yn 1918. Mae Aelodau'r blaid wedi bod yn y Cynulliad ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol yn 1999, gan gynnwys y cyn-Brif Ysgrifennydd, Alun Michael.

Mae'r archifau yn ymwneud yn bennaf â threfniant y blaid yng Nghymru ac maent yn cynnwys cofnodion Cyngor Cymru y blaid, cynghorau rhanbarthol y blaid sef Gogledd a Chanolbarth Cymru, De Cymru a Gorllewin Cymru, a deunydd sy'n gysylltiedig â chynadleddau, fforymau polisi, y Cynulliad Cenedlaethol a rôl mentrau cydweithredol yng Nghymru. Maent hefyd yn cynnwys amrywiaeth o ddeunydd cyhoeddedig gan gynnwys maniffestos, dogfennau polisi, adroddiadau blynyddol, cylchgrawn yr aelodau, cryno-ddisgiau a disgiau DVD.

Nid yw'r archif wedi'i chatalogio ar hyn o bryd, er bod rhestr gynnwys wedi'i llunio.

In November and December 2013, the Library received 10 boxes of papers to add to the Parliament for Wales Campaign Archive. 13 boxes of archival material were already held in the collection, and this additional donation brings the archive up to the end of the campaign last year. Launched in 1988 as the Campaign for a Welsh Assembly/*Ymgyrch Senedd i Gymru,* it changed its English name in 1993. The campaign was a cross-party organisation drawing support from Welsh civic society, including political parties, churches, local authorities, and trade unions for the establishment of a devolved government in Wales. Following the establishment of the National Assembly for Wales in 1999, the campaign called for full legislative powers, similar to those enjoyed by the Northern Ireland Assembly and Scottish Parliament. Following the 2011 referendum on legislative powers and with its objectives met, the Campaign officially disbanded.

The new material contains financial documents, minutes, agendas, letters, publications, newsletters and ephemera from the campaign. It has not yet been fully catalogued.

Co-operative Party Wales Archives

During May 2014, the Library was pleased to receive 10 boxes of material from the Co-operative Party in Wales. The Co-operative Party is a significant presence in Welsh politics with 9 Assembly Members and 3 members of Parliament elected on a joint ticket with the Labour Party, but until now there were no Co-operative Party archives held at the Library. We're delighted that this has now been rectified and a significant gap in Welsh politics has been plugged.

The party was established in 1917, as a result of the treatment of Co-operatives during the Great War, and elected its first MPs in 1918 in Kettering. It has had Assembly Members since the National Assembly was established in 1999, including former First Secretary Alun Michael.

The archives mainly relate to the party organisation in Wales and include records of the Wales Council of the party, the regional party councils of North & Mid Wales, South Wales and West Wales, and material related to conferences, policy fora, the National Assembly and the role of co-operatives in Wales. They also include an array of published material including manifestos, policy documents, annual reports, the members' magazine and DVDs and CDs.

The archive is at present uncatalogued, although a list of the contents has been complied.

ARCHIFAU ERAILL A DDAETH I LAW YN DDIWEDDAR
OTHER ARCHIVES RECENTLY ACQUIRED

1	7	1	7
3 blwch mawr o ddeunydd gan Simon Thomas AC yn ymwneud â'r cyfnod 2000-2005 pan oedd yn Aelod Seneddol Plaid Cymru dros Geredigion (Ychwanegiad at Bapurau Simon Thomas).	10 blwch mawr o bapurau gan y Sefydliad Materion Cymreig yn cynnwys amrywiaeth o ffeiliau prosiect a chyhoeddiadau yn bennaf ar themâu datganoli a pholisi (Ychwanegiad at Bapurau'r Sefydliad Materion Cymreig).	3 large boxes of material from Simon Thomas AM relating to the period 2000-2005 when he was Plaid Cymru MP for Ceredigion. (Addition to Papurau Simon Thomas).	10 large boxes of papers from the Institute of Welsh Affairs comprising an assortment of project files and publications largely on devolution and policy themes (Addition to Papers of the Institute of Welsh Affairs)
2	8	2	8
1 blwch bach o bapurau yn ymwneud ag achosion llys aelodau Cymdeithas yr Iaith yn ystod diwedd y 1960au a dechrau'r 1970au (NLW ex 2826).	Papurau wedi'u casglu gan Meri Huws (NLW ex 2846).	1 small box of papers relating to court cases of Cymdeithas yr Iaith Gymraeg members during the late 1960s and early 1970s. (NLW ex 2826).	Papers collected by Meri Huws (NLW ex 2846)
3	9	3	9
Albwm sy'n cynnwys llythyrau mewn llawysgrif ac ati, llawer o'r 17eg ganrif ac yn ddiweddarach ac sydd â'r arysgrif, 'A collection of letters addressed to the son of the regicide Col. John Jones, with other curious old papers found in a house belonging to the Jones family. Taken down in 1824' (NLW MS 24046).	Casgliad o 40 ffotograff du a gwyn a dynnwyd gan aelodau Cymdeithas yr Iaith yn y 1980au, wedi'u defnyddio gan Wasg Morgannwg.	An album containing manuscript letters etc., many from the 17th century and later bearing the legend, 'A collection of letters addressed to the son of the regicide Col. John Jones, with other curious old papers found in a house belonging to the Jones family. Taken down in 1824'. (NLW MS 24046).	Collection of 40 black & white photographs of action taken by members of Cymdeithas yr Iaith Gymraeg in the 1980s, used by Gwasg Morgannwg.
4	10	4	10
1 amlen yn cynnwys llyfrau nodiadau gan Toni Lewis, o'r Ffrynt Wladgarol Genedlaethol (Ychwanegiad at Bapurau Tŷ Cenedl).	Llythyr gan David Lloyd George, dyddiedig 1913 mewn cyfrol o lythyrau amrywiol (NLW MS 24044).	1 envelope containing notebooks by Toni Lewis, of the National Patriotic Front. (Addition to Papurau Tŷ Cenedl)	A letter from David Lloyd George, dated 1913 in a volume of miscellaneous letters (NLW MS 24044)
5	11	5	11
Cardiau mynegai i'r papurau a roddwyd yn flaenorol gan Gwilym Jones fel AS Ceidwadol Gogledd Caerdydd (Ychwanegiad at Bapurau Gwilym Jones).	Cryn dipyn o ddeunydd ychwanegol gan yr Arglwydd Morris o Aberafan, yn cynnwys nifer o ffotograffau rhydd ac albymau lluniau (Ychwanegiad at Bapurau John Morris).	Card indexes to the papers previously donated by Gwilym Jones as Conservative MP for Cardiff North (Addition to Gwilym Jones Papers)	A significant amount of additional material from Lord Morris of Aberavon, including several loose photographs and photograph albums (addition to John Morris Papers)
6	12	6	12
3 blwch mawr o ddeunydd yn ymwneud â Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, y Bil Aelod Preifat cyntaf a gyflwynwyd i'r Cynulliad gan Peter Black AC (Ychwanegiad at bapurau Peter Black (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru)).	Blwch arall o ddeunydd gan Peter Hain (Ychwanegiad at Bapurau Peter Hain).	3 large boxes of material relating to the Mobile Homes (Wales) Act 2013, the first private member's bill, introduced into the Assembly by Peter Black AM (Addition to Peter Black (Liberal Democrats Wales) Papers)	An additional box of material from Peter Hain (Addition to Peter Hain Papers)

NEWYDDION
NEWS

Etholiad Senedd Ewrop

Aeth pleidleiswyr ledled y Deyrnas Unedig ati i fwrw eu pleidlais ddydd Iau 22 Mai i ethol aelodau i Senedd Ewrop, er na chafodd y canlyniadau eu cyhoeddi tan ddydd Sul 28 Mai ar ôl i'r pleidleisio ddigwydd ym mhob un o'r 28 gwladwriaeth sy'n aelodau. Er bod polau piniwn wedi dangos ei bod yn debygol y byddai newid yn y cydbwysedd rhwng y pleidiau yng Nghymru, eto cadwodd Llafur Cymru, UKIP, y Ceidwadwyr Cymreig a Phlaid Cymru oll eu seddi gyda thri o'r pedwar ASEau blaenorol o Gymru yn dychwelyd. Etholwyd Derek Vaughan, Nathan Gill, Kay Swinburne a Jill Evans.

Er bod Cymru yn un etholaeth at ddibenion etholiad Senedd Ewrop, cynhyrchodd rhai pleidiau ddeunydd etholiadol a dargedai ardaloedd lleol yn ogystal â chael llenyddiaeth ar gyfer Cymru gyfan. Bu rhwydwaith casglu deunydd etholiadol yr Archif Wleidyddol Gymreig yn ddiwyd unwaith eto wrth sicrhau bod casgliad cynhwysfawr o lythyrau a thaflenni'r etholiad ar gael i ymchwilwyr y dyfodol.

Catalogio

Mae archifau Peter Hain, Aelod Seneddol Castell-nedd ers 1991 a chyn-Arweinydd Tŷ'r Cyffredin, cyn-Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau a chyn-Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Gogledd Iwerddon, wedi cael eu catalogio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a byddant ar gael yn fuan i chwilio drwyddynt ar gatalog y Llyfrgell. Mae blwch arall llawn deunydd hefyd wedi dod i law yn ddiweddar.

Mae'r casgliad yn un diddorol iawn ac yn ymwneud yn bennaf â'i yrfa wleidyddol o'r dyddiau cynnar pan oedd yn aelod o'r Rhyddfrydwyr Ifanc hyd at ei gyfnod fel aelod o lywodraeth Lafur ar ôl 1997. Mae yma amrywiaeth eang o bapurau yn ymwneud ag ymgyrchoedd gwrth-apartheid a phrotestiadau 'Stop the Seventy Tour', ei ddyddiau cynnar gyda'r Blaid Lafur, ei waith fel AS ac mewn swyddi gwahanol yn y llywodraeth. Mae'r papurau hefyd yn cynnig trosolwg eang o'r dirwedd wleidyddol ym Mhrydain. Y themâu allweddol ynddynt yw trawsnewidiad y blaid Lafur o fod yn wrthblaid i lywodraethu a datblygiad Llafur Newydd, yn ogystal â hanes datganoli – o ymgyrch y refferendwm i Etholiad Cyffredinol cyntaf Cymru.

Casgliad gwleidyddol diddorol arall sydd wedi cael ei gatalogio yn ystod y flwyddyn yw casgliad yr Arglwydd Temple-Morris, cyn-Aelod Seneddol Ceidwadol dros Lanllieni (Leominster) a ymunodd â'r Blaid Lafur ym 1998. Mae'r papurau yn adlewyrchu ei ddiddordebau amrywiol gan gynnwys y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig ac Iran, proses heddwch Gogledd Iwerddon yn ogystal â phapurau yn ymwneud â chanlyniadau ymddiswyddiad Margaret Thatcher fel Prif Weinidog, ymdrechion i'w ddad-ddewis fel ymgeisydd Ceidwadol dros Lanllieni a'i hanes yn ymuno â'r blaid Lafur.

—

European Parliament Election

Voters across the United Kingdom went to the polls on Thursday 22nd May to elect members to a new European Parliament; although the results were not published until Sunday May 28th after voting had been completed in all 28 member states. Despite opinion polls showing that there was likely to be a change in the balance between the parties in Wales, Welsh Labour, UKIP, the Welsh Conservatives and Plaid Cymru all retained their seats with three out of the four sitting MEPs from Wales returned. Elected were Derek Vaughan, Nathan Gill, Kay Swinburne and Jill Evans.

Welsh Political Ephemera Collection

Whilst Wales is a single constituency for the purposes of the European Parliament election, some parties produced locally targeted election material in addition to pan Wales literature. The Welsh Political Archive's electoral material collection network once again worked to ensure a comprehensive collection of election letters and leaflets which will be available for researchers of the future.

Cataloguing

The archives of Peter Hain, MP for Neath since 1991 and former Leader of the House of Commons, Secretary of State for Work and Pensions, Wales and Northern Ireland have been catalogued during the last year and will soon be available to search on the Library's catalogue. An additional box of material has recently been received.

The collection is a very interesting one and is mostly concerned with his political career from the early days when he was a member of the Young Liberals to his time as a member of the post 1997 Labour government. They contain a wide variety of papers regarding anti-apartheid campaigns and the 'Stop the Seventy Tour' protests, his early days with the Labour Party, his work as an MP and various government posts. The papers also give a wide overview of the political landscape in Britain. The transformation of the Labour party from opposition to government and the development of New Labour are key themes as is the history of devolution from the referendum campaign to the first Welsh General Election.

Another interesting political collection which has been catalogued in the last year is that of Lord Temple-Morris, former Conservative MP for Leominster who defected to the Labour Party in 1998. The papers reflect his varied interests including UK-Iranian relations, the Northern Ireland peace process as well as papers relating to fallout from the resignation of Margaret Thatcher as Prime Minister, attempts to de-select him as Conservative candidate for Leominster and his defection to the Labour party.

Pwyllgor Ymgynghorol

Cynhaliwyd pedwerydd cyfarfod a deugain Pwyllgor Ymgynghorol yr Archif Wleidyddol Gymreig ar 1 Tachwedd 2013. Dyma'r cyfarfod cyntaf gyda'r Llyfrgellydd a'r Prif Weithredwr newydd Dr Aled Gruffudd Jones yn y gadair.

Yn ystod y cyfarfod rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am waith yr Archif, gan gynnwys archifau a dderbyniwyd yn ystod y 12 mis blaenorol, a thrafodwyd unigolion a sefydliadau i gysylltu â hwy ynghylch trafod trosglwyddo eu papurau i'r Archif. Mae nifer o ychwanegiadau wedi'u gwneud i'r Archif o ganlyniad i'r trafodaethau hyn ac i waith aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol yn holi ynghylch archifau posibl. Cafodd yr aelodau hefyd gyflwyniadau ar brosiect digido Cymru 1914 (cymru1914.org) a gweithredu rheoliadau adnau cyfreithiol electronig.

Yna trafododd yr Aelodau drefniadau ar gyfer darlithoedd blynyddol 2014 a 2015. Yn anffodus, nid yw'r Athro Teresa Rees bellach yn gallu traddodi darlith 2014 fel y cynlluniwyd, ond rydym yn falch iawn fod cyn-arweinydd y Ceidwadwyr yn y Cynulliad Cenedlaethol, yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth, yn fodlon cyflwyno darlith 2014 ddydd Gwener, 7 Tachwedd, ac yntau wedi cytuno'n wreiddiol i ddarlithio yn 2015.

Cyhoeddiadau

Dymunwn longyfarch yr Athro Russell Deacon ar gyhoeddi'r gyfrol *The Welsh Liberals; The History of the Liberal and Liberal Democrat Parties in Wales* yn gynharach eleni. Caiff y llyfr ei adolygu yn y cylchlythyr hwn.

Rydym hefyd yn llongyfarch yr Athro Angela John ar gyhoeddi ei bywgraffiad o'r Fonesig Rhondda, *Turning the Tide; the Life of Lady Rhondda*, sy'n archwilio bywyd cyhoeddus a phreifat un o'r menywod mwyaf dylanwadol yng nghymdeithas Prydain ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Cyflwyniadau ac ymgysylltu â chymdeithasau

Yn ystod mis Ebrill 2014 siaradodd Rob Phillips â myfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor am y casgliadau gwleidyddol sydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru a sut i'w defnyddio. Y gobaith yw y bydd cyflwyniadau o'r fath yn digwydd yn rheolaidd er mwyn hybu'r defnydd o'r Archif ymhlith academyddion.

Mae'r Llyfrgell hefyd wedi ymgysylltu â Grŵp Hanes y Ceidwadwyr, Grŵp Hanes y Democratiaid Rhyddfrydol, Llafur, Cymdeithas Hanes Plaid Cymru, y Gymdeithas Astudio Hanes Llafur, Cymdeithas Hanes y Sosialwyr, a Grŵp y Pleidiau Gwleidyddol ac Archifau Seneddol, y Deyrnas Unedig.

Consultative Committee

The forty-fifth meeting of the Welsh Political Archive's Consultative Committee was held on November 1st 2013. This was the first meeting with the new Librarian and Chief Executive, Dr Aled Gruffudd Jones in the chair.

During the meeting members received an update on the work of the Archive, including archives received in the preceding 12 months and discussed individuals and organisations to contact to discuss transfer of their papers to the Archive. Several additions have been made to the Archive as a result of these discussions and approaches made by members of the Consultative Committee. Members also received presentations on the Cymru 1914 digitisation project (cymru1914.org) and the implementation of electronic legal deposit regulations.

Members then discussed arrangements for the annual lectures in 2014 and 2015. Unfortunately, Professor Teresa Rees will now not be able to give the 2014 lecture as planned, but we are delighted that the former leader of the Conservatives in the National Assembly, Lord Bourne of Aberystwyth, who had originally agreed to lecture in 2015, will now deliver the 2014 lecture on Friday 7th November.

Publications

We congratulate Professor Russell Deacon on the publication of *The Welsh Liberals; The History of the Liberal and Liberal Democrat Parties in Wales* earlier this year. The book is reviewed in this newsletter.

We also congratulate Professor Angela John on the publication of her biography of Lady Rhondda *Turning the Tide; the life of Lady Rhondda* in which she explores the public and private life of one of the most influential women in British society in the early twentieth century.

Presentations and affiliations

During April 2014 Rob Phillips spoke to students at Bangor University about the political collections held at the National Library of Wales and how to make use of them. It is hoped that such presentations will become a regular occurrence to promote use of the Archive among academics.

The Library has also affiliated to the Conservative History Group, the Liberal Democrat History Group, Llafur, the Plaid Cymru History Society, the Society for the Study of Labour History, the Socialist History Society and the Political Parties and Parliamentary Archives Group, UK.

DARLITH Y BARWN MORRIS O ABERAFAN
BARON MORRIS OF ABERAVON'S LECTURE

John Morris Papers

Nos Wener 1 Tachwedd 2013, traddodwyd seithfed darlith flynyddol ar hugain yr Archif Wleidyddol Gymreig gan y Gwir Anrh. Arglwydd Morris o Aberafan KG QC, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yr Arglwydd Morris oedd yr AS Llafur dros Aberafan o 1959 hyd at 2001 a bu mewn nifer o uwch swyddi gan gynnwys Gweinidog Gwladol yn y Weinyddiaeth Amddiffyn, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Thwrnai Cyffredinol Cymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bu'n gwasanaethu mewn llywodraethau dan arweiniad Harold Wilson, James Callaghan a Tony Blair ac ers ei ymddeoliad o Dŷ'r Cyffredin mae wedi bod yn weithgar yn Nhŷ'r Arglwyddi, gan hefyd fod yn Ganghellor Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol De Cymru.

Cenedl y Cymry a'r Deyrnas Unedig oedd y teitl a ddewiswyd ganddo ar gyfer y ddarlith, ac roedd wedi'i rhannu yn ddwy brif ran. Yn y rhan gyntaf, rhoddodd yr Arglwydd Morris sylw i gyfraniadau'r Cymry yn natblygiad y Deyrnas Unedig dros y canrifoedd, gan sôn am ffigyrau megis y barnwr Arglwydd Edmund-Davies, y Barnwr David Jenkins ac Aneurin Bevan. Soniodd hefyd am ei rôl yntau yn yr ymyrraeth yn Kosovo, y defnydd o'r Frenhinfraint i gyhoeddi rhyfel a datblygiad y cynigion datganoli i Gymru yn y 1970au. Yn yr ail ran, ystyriodd yr Arglwydd Morris y setliad datganoli presennol a newidiadau a fyddai'n gwella ei weithrediad. Siaradodd o blaid model pwerau neilltuedig, lle câi pob mater ei ddatganoli i Gymru oni bai am eithriadau penodol, fel sy'n wir yn yr Alban, yn ogystal â phwerau benthyca er mwyn caniatáu buddsoddi hirdymor, a chyfrifoldeb dros ddarlledu a'r heddlu.

Trafododd yr Arglwydd Morris hefyd y newidiadau i'r Cynulliad, Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cymru. Credai fod yr achos wedi'i wneud dros gynyddu nifer Aelodau'r Cynulliad yn dilyn trosglwyddo pwerau deddfu llawn i'r Cynulliad, ond mai'r quid pro quo yw gostwng nifer y gweinidogion yn Llywodraeth Cymru a chynyddu oriau gweithio'r Cynulliad. Cododd gwestiynau hefyd ynghylch parhad Swyddfa Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru, gan ddweud "Beth yn y byd y maen nhw'n ei wneud o ddydd i ddydd, Duw a ŵyr!"

Roedd yr awditoriwm yn llawn ar gyfer y ddarlith ac roedd yr Arglwydd Morris yn ddigon caredig i dderbyn cwestiynau gan y gynulleidfa.

Cyhoeddwyd ei lyfr *Fifty years in politics and the law* gan Wasg Prifysgol Cymru ac mae copïau ar gael o siop lyfrau'r Llyfrgell.

On the Evening of Friday 1 November 2013, the Rt. Hon. the Lord Morris of Aberavon KG QC delivered the twenty-seventh Welsh Political Archive annual lecture at the National Library of Wales. Lord Morris was the Labour MP for Aberavon from 1959 to 2001 and served in a number of senior positions including Minister of State at the Ministry of Defence, Secretary of State for Wales and Attorney General for England and Wales and Northern Ireland. He served in governments headed by Harold Wilson, James Callaghan and Tony Blair and since his retirement from the Commons has been active in the House of Lords, also serving as Chancellor of the University of Glamorgan and the University of South Wales.

The Welsh Nation and the United Kingdom was the title he chose for the lecture and it was divided into two main parts. In the first section, Lord Morris considered the contributions of Welshmen to the development of the United Kingdom over the centuries, mentioning such figures as the Judge Lord Edmund-Davies, Judge David Jenkins and Aneurin Bevan. He also considered the role he had played in intervention in Kosovo, the use of the Royal Prerogative to declare war and the development of the devolution proposals for Wales in the 1970s.

In the second section, Lord Morris considered the present devolution settlement and changes which would improve its operation. He spoke out in favour of a reserved powers model, where all matters would be devolved to Wales except where specifically exempted, as is the case with Scotland, as well as borrowing powers to allow for long term investment and responsibility for broadcasting and police.

Lord Morris also considered changes to the Assembly, Welsh Government and Wales Office. He believed that the case had been made for an increase in the number of Assembly Members following the conferral of full legislative powers on the Assembly, but that the quid pro quo would be a reduction in the number of ministers in the Welsh Government and an increase in the working hours of the Assembly. He also questioned the continued existence of the Wales Office and the Secretary of State for Wales, stating "What on earth they do on a day to day basis, Goodness only knows!"

The auditorium was full for the lecture and Lord Morris was kind enough to take questions from the floor.

Copies of his book *Fifty years in politics and the law* is published by the University of Wales Press and is available from the Library's bookshop.

THE WELSH LIBERALS – THE HISTORY OF THE LIBERAL AND LIBERAL DEMOCRAT PARTIES IN WALES

GAN/BY RUSSELL DEACON



Welsh Academic Press, Caerdydd
Clawr Caled, 234x156 mm, 416 tudalen
ISBN: 9781860570964 (1860570968)
Welsh Academic Press, Cardiff
Hardback, 234x156 mm, 416 pages
ISBN: 9781860570964 (1860570968)

Harold Wilson, y cyn-Brif Weinidog Llafur, a ddywedodd y geiriau adnabyddus 'mae wythnos yn amser hir mewn gwleidyddiaeth'. Roedd un o'i ragflaenwyr, y Rhyddfrydwr Joseph Chamberlain, wedi dweud rhywbeth tebyg iawn yn 1886 pan awgrymodd 'mewn gwleidyddiaeth, nid oes diben edrych y tu hwnt i'r pythefnos nesaf'. Mae'r *Welsh Liberals* yn sôn am hanes y Blaid Ryddfrydol (a'i holynwyr) yng Nghymru o 1859 tan 2011. Os yw wythnos yn amser hir mewn gwleidyddiaeth, yna mae 150 mlynedd yn sicr yn cynnig stori ryfeddol yn llawn uchafbwyntiau ac isafbwyntiau – llwyddiannau etholiadol, anobaith etholiadol, diwedd y blaid bron â bod, sgandalau, straeon i godi cywilydd, aileni, cyfuno, a phartneriaethau clymbleidiol yn y Cynulliad Cenedlaethol yn 2000 ac yn San Steffan yn dilyn etholiad cyffredinol 2010. Mae'r llyfr hefyd yn cynnig darlun dadlennol a hynod ddifyr o'r personoliaethau a gymerodd ran yn y ddrama hir hon. Roedd llawer yn radicaliaid yn tueddu i'r chwith ac a fyddai o bosibl wedi bod yn hapusach yn y Blaid Lafur (a rhai yn wir wedi symud i'r blaid honno yn ddiweddarach), tra bod eraill yn gogwyddo i'r dde, gan gynnwys Gwilym Lloyd George, mab ieuengaf y cyn-Brif Weinidog a fu'n Ysgrifennydd Cartref yn ystod llywodraeth Eden fel Rhyddfrydwr Cenedlaethol. Er bod Aelodau Seneddol Rhyddfrydol Cymreig ar ôl y rhyfel yn brin iawn, cafwyd rhai o safon uchel iawn, megis Megan Lloyd George, Roderic Bowen, Clement Davies, Rhys Hopkin Morris, a'r Emlyn Hooson carismatig. Yn nes ymlaen y daeth Alex Carlile a Lembit Öpik i amlygrwydd, yn ogystal â'r manwfrwr gwleidyddol crefftus, Geraint Howells, nad yw o bell ffordd wedi cael sylw a'r gwerthfawrogiad haeddiannol.

Mae traean cyntaf y llyfr yn sôn am y cyfnod 1859-1945, sef cyfnod llwyddiannau mwyaf y blaid. Tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg daeth y blaid yn ddylanwadol iawn, ac arweiniodd ei hymgyrch genedlgarol ddiwylliannol at ddechrau sefydlu nifer o sefydliadau cenedlaethol yng Nghymru. Mae lle amlwg hefyd i Lloyd George fel canghellor blaenllaw gyda'i 'Gyllideb y Bobl' yn 1909, a'i lwyddiant yn ennill y Rhyfel Mawr ar ôl cymryd lle ei gydweithiwr Rhyddfrydol Herbert Asquith. Aeth Lloyd George wedyn i glymblaid gyda'r Ceidwadwyr ar ôl ennill buddugoliaeth ysgubol yn etholiad cyffredinol 1918 a bu'n Brif Weinidog Rhyddfrydol Cenedlaethol o 1918 hyd at 1922. Adlewyrchir y rhwyg rhyngddo ef ag Asquith mewn nifer o isetholiadau y brwydrwyd yn chwerw drostynt yng Nghymru. Pan ddymchwelodd y glymblaid yn 1922, roedd dylanwad Lloyd George wedi gwanhau, ac yntau wedi ceisio atal twf y Blaid Lafur a oedd erbyn 1924 wedi sefydlu ei hun i fod y blaid â'r nifer fwyaf o ASau yng Nghymru, safle y mae wedi'i chadw byth ers hynny.

Ar ôl 1945 roedd y blaid wedi'i chwtogi i lond llaw o Aelodau Seneddol yn unig, ac fe'i disodlwyd i raddau helaeth gan Lafur yn yr ugain mlynedd a ddilynodd, yn enwedig yn y bröydd Cymraeg. Wrth i Blaid Cymru gryfhau yn y 1970au, cafodd y Blaid Lafur hithau ei disodli gan Blaid Cymru yn y Fro Gymraeg, a'r bleidlais Ryddfrydol yn yr ardaloedd hyn wedi gwanhau i lefel ddigon pitw gan mwyaf, ac eithrio Ceredigion yn ddiddorol iawn. Yng Ngheredigion llwyddodd y Rhyddfrydwyr i adlamu'n ôl gyda chryn egni i adennill y sedd yn 2005, mewn etholaeth a welodd dair plaid wahanol yn ei chynrychioli mewn cyfnod cymharol fyr rhwng 1966 a 1992.

Mae'r awdur wedi llunio arolwg hynod fanwl yn seiliedig ar ffynonellau gwreiddiol ac eilaidd a'r cyfan wedi'i restru mewn troednodiadau manwl; mae hefyd wedi cynnal dros hanner cant o gyfweliadau gydag ymgyrchwyr y blaid. Er bod yr awdur ei hun yn ymgyrchydd ymroddedig, mae'n amlwg wedi rhoi hynny i'r naill ochr yn ei ddadansoddiad ac wedi gwrthsefyll y demtasiwn i greu darlun gwynnach-na-gwyn o'r blaid. Mae'n braf darllen ei onestrwydd am lawer o bobl, ac mae'n gytbwys iawn wrth ymdrin â gwrthwynebwyr gwleidyddol. Rydym yn dysgu llawer iawn am y personél cyhoeddus a rhai'r ystafell gefn oedd y tu ôl i lwyddiannau a methiannau'r blaid. Cawn wybod hefyd sut y cafodd y blaid ei hadfywio, fel yn hanes y Ceidwadwyr, yn sgil sefydlu'r Cynulliad yn 1999; cyfle o'r newydd iddi ennill cynrychiolaeth etholiadol a chael dylanwad yn ein prif drefi a dinasoedd ac yn yr ardaloedd gwledig traddodiadol – a hithau heb gael hynny ers dros hanner can mlynedd.

Mae'n anochel y byddai rhai camgymeriadau yn codi mewn gwaith o'r fath fanylder ond er y mân ddiffygion hyn, mae *The Welsh Liberals* yn waith ysgolheigaidd o'r iawn ryw, a Russell Deacon yn haeddu pob clod am lunio cyfrol mor fanwl sy'n hynod ddarllenadwy.

Richard E. Huws
Cyfieithiad o adolygiad oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

Former Labour Prime Minister Harold Wilson once famously said that 'a week in politics was a long time'. One of his predecessors, Liberal Joseph Chamberlain, said something very similar in 1886 when he suggested that 'in politics, there is no use in looking beyond the next fortnight'. The Welsh Liberals covers the story of the Liberal Party (and its successor organisations) in Wales from 1859 until 2011. If a week is a long time in politics, then 150 years certainly provides a really remarkable roller coaster tale of electoral successes, electoral despair, near extinction, scandals, embarrassments, re-births, mergers, and coalition partnerships in the Welsh Assembly in 2000 and at Westminster following the general election of 2010. The book also provides a revealing and thoroughly entertaining picture of the personalities who participated in this lengthy drama. Many were left-leaning radicals who might have been happier in the Labour Party (and some later defected), whilst others, including Gwilym Lloyd George, youngest son of the of the former Prime Minister, was very much a man of the right, serving as Home Secretary in the Eden administration as National Liberal. Although the Welsh post-war Liberal MPs were few and far between, they were men and women of very high calibre such as Megan Lloyd George, Roderic Bowen, Clement Davies, Rhys Hopkin Morris, and the charismatic Emlyn Hooson. Alex Carlile, Lembit Öpik, and that crafty and grossly underestimated political manoeuvrer, Geraint Howells, came into prominence at a later date.

The opening third of the book deals with the period from 1859 to 1945, during which the party enjoyed its greatest successes. Towards the end of the nineteenth century the party gained real influence, and its cultural nationalist campaign saw the beginnings of the foundations of many Welsh national institutions. Lloyd George also figures as a prominent chancellor with his 'People's Budget' of 1909, and succeeds in winning the Great War after replacing his Liberal colleague Herbert Asquith. Lloyd George subsequently entered into coalition with the Conservatives after winning a landslide victory in the 1918 general election and served as National Liberal Prime Minister from 1918 to 1922. His split with Asquith was reflected in several bitter by-elections fought in Wales, and when the coalition collapsed in 1922, Lloyd George's influence waned, as he tried to stave off the growth of the newly emerging Labour Party, which by 1924 had established itself as having the largest number of Welsh MPs, a position retained ever since.

From 1945 the party was reduced to only a handful of MPs, and was largely replaced in the ensuing twenty years by Labour, especially in the Welsh-speaking areas of Wales. In turn, as Plaid Cymru advanced in the 1970s, the Labour Party found itself displaced by the Plaid Cymru in Y Fro Gymraeg, where the Liberal vote was largely reduced to an insignificant level, with the intriguing exception of Ceredigion, where the Liberals managed to bounce back with some vigour to regain the seat in 2005, in a constituency which saw three different parties representing it in a relatively short period from 1966 to1992.

The author has created an incredibly detailed survey based on primary and secondary sources, all cited in detailed footnotes, and has conducted over fifty interviews with party activists. Although the author is himself a committed activist, he has put that very much aside in his analysis, and has resisted the temptation to paint a whiter-than-white picture of the party. He is refreshingly honest about many people, and very balanced in his treatment of political opponents. We learn a great deal about the public and backroom personnel behind the successes and failures of the party, and how it was revitalised, as were the Conservatives, by the establishment of the Welsh Assembly in 1999, which gave it a new opportunity to gain electoral representation and a level of influence in our major towns and cities, and in traditional rural areas, which it had not enjoyed for over fifty years.

It is inevitable that in a work of such detail some mistakes should appear. Despite these *The Welsh Liberals* is a work of genuine scholarship, and Russell Deacon deserves every credit for producing such a detailed and eminently readable volume.

Richard E. Huws
A review from www.gwales.com, with the permission of the Welsh Books Council.

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU A'R RHYFEL BYD CYNTAF
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES AND THE FIRST WORLD WAR

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi datblygu rhaglen i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf a honno'n rhan allweddol o raglen *Cymru'n Cofio – Wales Remembers 1914-1918* Llywodraeth Cymru (www.cymruncofio.org). Elfen ganolog y rhaglen yw casgliadau ac adnoddau digidol y Llyfrgell a fydd yn coffáu effaith y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru, ac yn cynnig etifeddiaeth barhaol i ymchwilio, addysgu, ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

Mae'r cyfan yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio a'i ailddefnyddio ym mhob cwr o'r byd, gan adlewyrchu strategaeth *Gwybodaeth i Bawb* y Llyfrgell sy'n cydnabod bod yr effaith sydd gennym yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r bobl sy'n gallu teithio i'r Llyfrgell yn Aberystwyth i weithio gyda'n ffynonellau gwreiddiol a'n treftadaeth ddogfennol unigryw ac amhrisiadwy.

Cymru1914.org yw prif archif ddigidol LlGC ar y Rhyfel Byd Cyntaf. Cafodd ei ariannu gan JISC a Llywodraeth Cymru, a'i lansio ym mis Tachwedd 2013. Mae'n cynnwys dros 200,000 o dudalennau o archifau a chasgliadau arbennig Cymru sy'n datgelu hanesion anweledig y Rhyfel Byd Cyntaf a'i effaith ar bob agwedd ar gymdeithas yng Nghymru: economeg, iaith, celf, a llenyddiaeth. Mae'r deunydd yn dod o'n casgliadau ni ein hunain yma yn y Llyfrgell Genedlaethol, ynghyd ag amryw o bartneriaid, gan gynnwys WHELF (Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru), Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, archifdai lleol Conwy, Sir y Fflint, Morgannwg, a Gwent, Archif BBC Cymru Wales, a chynnwys cymunedol wedi'i gynhyrchu gyda Chasgliad y Werin, Cymru. Mae Cymru1914.org yn archif ddigidol unedig: mae'n dwyn ynghyd ddeunyddiau na fyddent yn flaenorol wedi gallu bod ar gael yn y ffordd integredig hon oherwydd eu bod ar wasgar ac yn fregus, ac nad oes modd yn aml mynd atynt ar ffurf analog. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cofnodion y Corfflu Cymreig, sy'n ffynonellau ynghylch recriwtio, gan gynnwys gwybodaeth ddemograffig, ysgogi agweddau'r cyhoedd, a phropaganda;
- Papurau newydd Cymru 1913-1919 sy'n cynnwys newyddion a darnau llenyddol, llythyrau gan filwyr, a barddoniaeth;
- Llawysgrifau, gan gynnwys dyddiaduron a llythyrau, ysgrifau cyfoes;
- Archifau Llenyddol, yn enwedig Beirdd Cymru y Rhyfel Mawr, yn bennaf Edward Thomas, David Jones a Hedd Wyn (Ellis Humphrey Evans); ac artistiaid sy'n cynnwys David Jones;
- Dogfennau swyddogol gan gynnwys cofnodion eglwysi a chapeli; cofnodion sefydliadau swyddogol, busnesau ac undebau llafur;
- Hanesion llafar yn Llyfrgell Glowyr Abertawe.

Rydym hefyd yn cydweithio â Chasgliad y Werin i gynnal gweithdai ac mae'r rhain wedi arwain at y gymuned yn cynhyrchu deunydd i'r wefan, gan gynnwys yr archif propaganda M17b a ddaeth i un o'n gweithdai digido cymunedol.

Mae'r archif ddigidol eisoes yn cael ei defnyddio ar gyfer ymchwilio, addysgu, ac ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru a thu hwnt, ac mae'n ffocws o bwys wrth goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru. Un o fanteision agor ein casgliadau archifol yn y modd hwn yw eu bod yn cael eu defnyddio at ddibenion hollol newydd. Rydym wedi gweld cynnwys Cymru1914.org yn cael ei ddefnyddio wrth greu gweithiau celf. Er enghraifft, defnyddiwyd delweddau o gasgliad o ffotograffau sydd i'w gweld ar Cymru1914.org gan yr artist enwog Bedwyr Williams yn ei osodiad trawiadol, Traw, sef darn o gelf a oedd yn ganolbwynt Cymreig i ddigwyddiad 14-18 DIFFODD GOLEUADAU ym Mangor.

Bydd y Llyfrgell yn ychwanegu adnoddau at cymru1914.org drwy gydol y cyfnod coffa, gan gynnwys papurau newydd ychwanegol; Cofnodion Tribiwnlys Rhyfel Mawr Sir Aberteifi (Apeliadau); Llythyrau Saunders Lewis; Archif Papurau Ymchwil Ffonwaywyr Ceffylau Cymreig (Welsh Horse Lancers); yn ogystal â llyfrau (gan gynnwys nofelau), cyfnodolion, dyddiaduron a llythyrau.

Wrth goffáu canrif ers y Rhyfel Byd Cyntaf, ymddengys yn briodol iawn y bydd delweddau, dogfennau a ffynonellau archifol o gasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar gael yn ddigidol i'n defnyddwyr ledled y byd, gan adael etifeddiaeth dragwyddol wrth drawsnewid ysgolheictod drwy ymgysylltu digidol.

Lorna Hughes
Cadeirydd Casgliadau Digidol Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Cofio'r Rhyfel Mawr

Cynhaliodd y Llyfrgell nifer o ddigwyddiadau i goffáu dechrau'r Rhyfel. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Darlith gan James Taylor ar gefndir y poster recriwtio eiconig *Your Country Needs You*
- Darlith gan Rob Phillips ar recriwtio gwirfoddol a gorfodol yn ystod y Rhyfel Mawr
- Darlith gan yr Athro Densil Morgan ar ddyddiadur y Parch. Cynddelw Williams
- Lansio llyfr Gwyn Jenkins *Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf*
- Darlith gan yr Athro Gerwyn Wiliams ar Cynan a'r Rhyfel Mawr

Supplement to the "Carmarthen Journal," January 26th, 1917

Carmarthen Journal 1917.

OUR FALLEN HEROES.

Y CORFFLU CYMREIG.

ANNERCH
LLEWELYN AP GRYFFUDD
I'W FILWYR
Saith Gan' Mlynedd yn ol.

cymru1914.org

The National Library of Wales has developed a First World War commemoration programme that forms a key part of the Welsh Government's Cymru'n Cofio – Wales Remembers 1914-1918 Programme (www.walesremembers.org). Central to this is the Library's provision of digital collections and resources that will commemorate the impact of the First World War in Wales, and provide a lasting legacy for research, teaching, and public engagement.

All are free for use and re-use around the world, reflecting the Library's strategy of *Knowledge For All,* and recognising that our impact extends far beyond people who can travel to the Library in Aberystwyth to work with our unique and priceless primary sources and documentary heritage.

Cymru1914.org is NLW's flagship digital archive of the First World War. It was funded by Jisc and the Welsh Government, and launched in November 2013. It contains over 200,000 pages of archives and special collections of Wales that reveal the unseen histories of the First World War and its impact on all aspects of Welsh society: economics, language, art, and literature. The material comes from our own collections here at the National Library, and a range of partners, including WHELF (the Welsh Higher Education Libraries Forum), Bangor University, Cardiff University, Aberystwyth University, Swansea University, University of Wales Trinity Saint David, the local archives of Conwy, Flintshire, Glamorgan, and Gwent, BBC Cymru Wales Archive, and community content generated with The People's Collection, Wales. Cymru1914.org is a unified digital archive: bringing together materials which could not previously have been available in this integrated way as they are dispersed, fragile, and frequently inaccessible in analogue form. These include:

- The records of the Welsh Army Corps, which are sources for recruitment, including demographic information, mobilisation of public attitudes, and propaganda;
- Welsh newspapers 1913-1919 that include news and literary content, letters from soldiers, and poetry;
- Manuscripts, including diaries, journals and letters, contemporary writings;
- Literary Archives, especially of the "Welsh War Poets", notably Edward Thomas, David Jones and Hedd Wyn (Ellis Humphrey Evans); and artists including David Jones;
- Official documents including Church and chapel records; records of official organisations, businesses and trade unions;
- The oral histories in the Swansea Miners Library.

We also worked with the People's Collection, Wales to run workshops that created community generated content, including the M17b propaganda archive brought to one of our community digitization workshops.

The digital archive is already being used for research, teaching, and public engagement in Wales and around the Word, and is a major focus of the First World War commemoration in Wales. One of the advantages of opening up our archival collections in this way is their use for unforeseen purposes. We have seen Cymru1914.org content used in the creation of artworks. For example, the celebrated artist Bedwyr Williams used images from the collection of photographs that can be found in Cymru1914.org in his striking installation piece, Traw, the Welsh centerpiece of the 14-18-Now LIGHTS OUT event in Bangor.

The Library will add resources to cymru1914.org throughout the commemoration period, including additional newspapers; the Cardiganshire Great War Tribunal (Appeals) Records; Saunders Lewis Letters; the Welsh Horse Lancers Research Papers Archive; as well as books (including novels), periodicals, diaries and letters.

It seems fitting that on the 100th anniversary of the First World War, images, documents and archival sources from the collections of the National Library of Wales will be digitally available to our users around the world, leaving a lasting legacy by transforming scholarship through digital engagement.

Lorna Hughes
University of Wales Chair in Digital Collections, National Library of Wales

Remembering the Great War

The Library has also hosted a number of events to commemorate the outbreak of the war. These included;

- Lecture by James Taylor on the background to the iconic recruitment poster *Your Country Needs You*
- Lecture by Rob Phillips on voluntary and compulsory recruitment during the Great War
- Lecture by Professor Densil Morgan on the diary of the Revd. Cynddelw Williams
- Launch of Gwyn Jenkins' book *Cymry's Rhyfel Byd Cyntaf*
- Lecture by Professor Gerwyn Williams on Cynan and the Great War

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BU

t: 01970 632 800
f: 01970 615 709
post@llgc.org.uk

Oriau Agor Cyffredinol
General Opening Hours

Dydd Llun – Dydd Gwener
Monday – Friday
9:30am – 6:00pm
Dydd Sadwrn
Saturday
9:30am – 5:00pm

Yr Archif Wleidyddol Gymreig
The Welsh Political Archive

t: 01970 632 984
robert.phillips@llgc.org.uk
www.llgc.org.uk/archifwleidyddolgymreig
www.llgc.org.uk/welshpoliticalarchive

DARLITH LECTURE

Darlith Yr Archif Wleidyddol Gymreig, 2014

Dydd Gwener 7 Tachwedd
6.00pm

Darlith Flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig – yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth

Bydd cyn-arweinydd y Ceidwadwyr yn y Cynulliad Cenedlaethol yn trafod dyfodol y cyfansoddiad yng nghyd-destun y newid ym mherthynas gwledydd y Deyrnas Unedig. Y cyflwyniad hwn yw'r diweddaraf mewn cyfres nodedig o ddarlithoedd cyhoeddus.

Mynediad am ddim trwy docyn

Welsh Political Archive Lecture, 2014

Friday 7 November
6.00pm

Welsh Political Archive Annual Lecture – Lord Bourne of Aberystwyth

The former leader of the Conservatives in the National Assembly will discuss the future of the constitution in the context of the changing relationship between the countries of the United Kingdom. This presentation is the latest in this milestone series of lectures.

Free admission by ticket

LLGC NLW

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

www.llgc.org.uk

ISSN 1365-9170

dylunio / design elfen.co.uk